**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

13 Ionawr 2020

Annwyl David

Yn ystod fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 6 Ionawr cytunais i ysgrifennu atoch am faterion yn ymwneud â Bil yr UE (Cytundeb Ymadael).

Gofynnodd Alun Davies AC am y meysydd lle mae anghytuno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r cymalau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Roedd anghytundeb ynghylch 10 cymal yn fersiwn mis Hydref o'r Bil ond roedd hyn wedi gostwng i bump pan ailgyflwynwyd y Bil ym mis Rhagfyr. At ei gilydd, mae llawer o gonsensws ynglŷn â pha gymalau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer, ond yn ein barn ni, er nad yw Llywodraeth y DU yn derbyn hynny o hyd, mae angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y cymalau canlynol:

| **Cymal** | **Crynodeb** |
|---|---|
| 17 Dehongli: Rhan 3 | Mae'r cymal hwn yn darparu ar gyfer dehongli Rhan 3 o'r Bil. |
| 25 Arbed cyfraith yr UE a ddargedwir ar ddiwedd y cyfnod gweithredu | Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau i ddarpariaethau penodedig yn Neddf yr UE (Ymadael), er enghraifft drwy amnewid amryw o gyfeiriadau at y diwrnod ymadael ('*exit day*') fel eu bod yn cyfeirio at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ('*IP completion day*'). Diben hyn yw sicrhau y bydd y broses o drosi cyfraith yr UE yn gyfraith yr UE a ddargedwir ('*retained EU law')* yn awr yn digwydd ar ddiwedd y cyfnod gweithredu. |
| 26 Dehongli cyfraith yr UE a ddargedwir a'r gyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu | Mae'r cymal hwn yn gwneud diwygiadau pellach er mwyn amnewid cyfeiriadau at y diwrnod ymadael ('*exit day*') fel eu bod yn cyfeirio at ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ('*IP completion day*'). Mae'r cymal hwn hefyd yn diffinio'r term cyfraith berthnasol ar y cytundeb gwahanu ('*relevant separation agreement law*') ac yn pennu rheoli dehongli fel bod y corff hwnnw o gyfraith, hyd y bo'n gymwys, yn cael ei ddehongli'n unol â'r Cytundeb Ymadael, cytundeb gwahanu EEA EFTA a'r cytundeb ar hawliau dinasyddion y Swistir. |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | |
|---|---|
| 29 Adolygu cyfraith yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu | Mae’r cymal hwn yn darparu ar gyfer adolygu deddfwriaeth yr UE yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| 36 Diddymu deddfiadau diangen neu rai sydd wedi’u disbyddu | Mae’r cymal hwn yn diddymu deddfiadau diangen neu rai sydd wedi’u disbyddu. |

Holwyd fi hefyd am gymal 20, ynghylch darpariaeth ariannol i ganiatáu i daliadau gael eu gwneud i’r UE at ddibenion cydymffurfio ag unrhyw rai o rwymedigaethau’r Cytundeb Ymadael.

Ar ôl ystyried hyn, rydym yn cytuno bod y cymal hwn yn addasu cymhwysedd Gweinidogion Cymru a bod angen cydsyniad Senedd Cymru ar ei gyfer.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**